

ADRODDIAD AROLYGIAD HAFAN WEN 2014: CYNLLUN GWEITHREDU

Elfen 1: Gofynion Rheoliadol. Arolygiaeth Iechyd Cymru Chwefror 2014										
TASG	Camau Gofynnol	Gan bwy	Erbyn pryd	Blaenoriaeth			Canlyniad/Adborth	Cynnydd		
				Uchel	Canolig	Isel		H/Dd	A/W	Cwbl
<u>Rheoliad 15 (1) (a) (b) a (c)</u> 1a. Nid oedd siartiau goruchwyllo'r cleifion unigol yn bodloni'r safon yr hysbyswyd AGIC amdani. Ni weithredwyd safon yr ysbyty o gynnal archwiliadau cleifion bob hanner awr ar gyfer y chwe awr gyntaf ar ôl eu derbyn i'r ysbyty yn achos nifer o gleientiaid (A, B, C ac Ch).	Gweithredu adnodd archwilio clinigol. Addasu'r ffurflen arsylwi i gynnwys adolygiadau bob chwe awr.	AJ	15/01/14	✓			Mae'r ffurflenni arsylwi wedi eu haddasu i gynnwys cyfarwyddiadau i staff mewn perthynas â'r safon ofynnol. Mae proses archwilio bellach wedi'i rhoi ar waith i fonitro hyn.			✓
b. Ni lofnodwyd siartiau goruchwyllo client A ac ni roddwyd y dyddiad arnynt ychwaith.	Gweithredu adnodd archwilio clinigol.	AJ	15/01/14	✓			Cynnal archwiliad clinigol bob wythnos. Goruchwyllo gan reolwyr llinell i werthuso gallu staff unigol.			✓

c. Nid oedd Client E wedi llofnodi rhai dogfennau allweddol ac ni chafwyd esboniad am y llofnodion coll.	Rhoi adnodd archwilio clinigol ar waith bob wythnos i nodi unrhyw ddiffygion mewn dogfennau allweddol.	AJ	15/01/14	✓			Archwiliad bob wythnos bellach ar waith.			✓
ch. Nodwyd nifer o risgiau o fewn asesiadau risg cleientiaid B ac C, fodd bynnag, nid oedd unrhyw gynlluniau gofal ar waith.	Sicrhau bod cynlluniau gofal cleientiaid unigol yn cael eu datblygu yn seiliedig ar ganlyniadau asesiadau risg a nodir yn yr wybodaeth atgyfeirio.	Pob Nyrs	15/01/14	✓			Mae'r arfer hanesyddol o ddatblygu cynlluniau gofal ar ôl y broses o dderbyn unigolion i'r ysbyty bellach wedi'i adolygu ac mae cynlluniau gofal bellach ar waith fel rhan o'r broses derbyn. Mae fformat cynlluniau gofal yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a disgwylir i fformatau newydd gael eu datblygu a'u gweithredu erbyn mis Mehefin 2014.		✓	
d. Cafodd cleient B ei dderbyn i'r ysbyty cyn 10:30, fodd bynnag ni chofnodwyd unrhyw beth yn y dyddlyfr cynnydd dyddiol tan 17:10.	Sicrhau bod cynlluniau gofal ar waith pan dderbynnir cleientiaid i'r ysbyty.	Pob aelod o Staff	15/01/14	✓			Proses archwilio clinigol ar waith.			✓

dd. Nid oedd digon o fanylder yng nghynlluniau cleientiaid ac mae angen datblygu'r rhain er mwyn iddynt ddod yn ddogfennau ystyrlon.	Sicrhau y caiff gwybodaeth derbyn y cleient ei chofnodi yn y dyddlyfr cynnydd dyddiol yn ystod y broses dderbyn.	Pob aelod o Staff	Mehefin 2014	✓			Rhoddwyd yr archwiliad clinigol ar waith ar unwaith i gynnwys gwybodaeth cynlluniau gofal.		✓	
<u>Rheoliad 15 (5) (a) a (b)</u> 2. Nodwyd nifer o faterion yn ymwneud â'r ystafell driniaeth/clinig. Ymhlith y rhain roedd y canlynol: a. Mae fferyllydd o'r bwrdd iechyd lleol yn cynnal archwiliad o'r ystafell driniaeth/clinig ond nid yw'n llunio adroddiad/archwiliad o'r canfyddiadau.	Adolygu prosesau cynlluniau gofal a fformat. Cynnal archwiliad clinigol. Cynnwys pob aelod o staff yn y broses o adolygu a datblygu. Nodi a rhoi'r hyfforddiant priodol.	Ann Jones/AJ/EJ	Erbyn 1 ^{af} Ebrill 2014	✓			Anfonwyd e-bost at Ann Jones prif Fferyllydd Iechyd Meddwl, Ysbyty Maelor		✓	

b. Gwrthododd claf E ei feddyginiaeth ar 7 Ionawr 2014 ac ni nodwyd hynny yn y cofnod rhoi meddyginiaeth.	Trefnu cyfarfod â'r fferylllydd i drafod a datblygu'r broses archwilio ac adrodd.	Ann Jones/AJ/EJ	Erbyn 1 ^{af} Ebrill 2014	✓			Anfonwyd e-bost at Ann Jones prif Fferylllydd Iechyd Meddwl, Ysbyty Maelor		✓	
c. Dim llofnod cyntaf yn y llyfr cyffuriau rheoledig (F)	Rhoi adnodd archwilio clinigol ar waith bob wythnos i nodi unrhyw ddiffyg cydymffurfio o ran y polisi rheoli meddyginiaeth .	Pob Nyrs ac AJ	15/01/14	✓			Proses archwilio wedi'i gweithredu			✓
	Herio diffyg cydymffurfio drwy oruchwylio gan reolwyr.	AJ	15/01/14	✓			Proses archwilio wedi'i gweithredu			

ch. Roedd llofnod tyst yn y llyfr cyffuriau rheoledig ond roedd y cofnod wedi'i groesi allan (F). Mae'n annerbyniol i dyst lofnodi cofnod cyn y llofnod cyntaf sy'n cadarnhau pwy sy'n rhoi'r feddyginiaeth.	Sicrhau bod pob nyrs gymwysedig yn lofnodi'r llyfrau cyffuriau rheoledig yn ôl polisi rheoli'r meddyginiaethau.	EJ/AJ	Erbyn 1 ^{af} Ebrill 2014	✓			Mae'n ofynnol i bob aelod o staff ddarllen y Polisi Rheoli Meddyginiaethau a chodi unrhyw faterion yn ystod cyfnod goruchwyllo rheolwyr ac yna lofnodi'r gofrestr flynyddol i gadarnhau eich dealltwriaeth		✓	
d. Roedd cofnod dyddiedig 23 Rhagfyr 2013 wedi'i groesi allan. Mae'r hyn a ddigwyddodd gyda'r cofnod hwn yn aneglur gan fod stoc a'r broses o roi'r feddyginiaeth wedi'u cynnwys yn yr un cofnod.	Cynnal archwiliad cyffuriau rheoledig.	AJ	15/01/14	✓			Proses archwilio wedi'i gweithredu			✓
dd. Cofnodwyd bod Chlordiapoxide wedi'i roi ond roedd yn gofnod hwyr (4 Ebrill 2013). Fodd bynnag, nid oedd llofnod i'w weld.	Sicrhau bod pob aelod o staff yn cydymffurfio â'r Polisi Rheoli Meddyginiaethau	Ann Jones/EJ/AJ	Erbyn Ebrill 1 ^{af}	✓			Anfonwyd e-bost at Ann Jones prif Fferyllydd Iechyd Meddwl, Ysbyty Maelor			✓

e. Nid oedd amser nac ail lofnod ar gofnod dyddiedig 13 Mai 2013.	Cynnal archwiliad cyffuriau rheoledig bob wythnos.	AJ	15/01/14	✓			Proses archwilio wedi'i gweithredu			✓
f. Roedd rhybuddion cyffuriau yn y ffeil ond nid oedd cofnod o'r camau gweithredu a gymerwyd, er enghraifft dyddiad a llofnod y gwiriwr.	Adolygu'r arfer o gofnodi pryd y caiff Chlordiazepoxi de ei roi. Trefnu cyfarfod â'r fferylllydd i drafod a datblygu'r broses archwilio ac adrodd. Cynnal archwiliad cyffuriau rheoledig bob wythnos. Y sawl sy'n derbyn y rhybudd cyffuriau i lofnodi, dyddio a ffeilio. Dylid	AJ/EJ	15/01/14	✓			Llofnodwyd rhybuddion cyffuriau ar ôl eu derbyn gan y rheolwr a'r dirprwy reolwr.			✓

	cadw'r ffeil yn swyddfa'r nyrsys.									
Rheoliad 20 (1) (a) a (2) (a) a (b) 3. Roedd yn anodd cadarnhau pa hyfforddiant yr oedd staff wedi'i gael a phryd y byddai angen eu hyfforddi nesaf. Rhaid datblygu system gynhwysfawr ar gyfer cofnodi hyfforddiant.	Rhaid creu a gweithredu matrices hyfforddi a fydd yn rhoi tystiolaeth o bob hyfforddiant y mae staff wedi'i gael a dyddiadau hyfforddi i ddod.	SE/RW/AJ/E J	Erbyn 1 ^{af} Ebrill	✓			Ymgynghorwyd â chydgyssylltydd hyfforddiant CAIS a Thiwtor T.G. Hafan Wen		✓	
Rheoliad 20 (2) (c) a Rheoliad 21 (a) (c) (2) (a) (b) a (d) 4. Nodwyd nifer o faterion yn ymwneud â ffeiliau staff. Ymhlith y rhain roedd y canlynol:	Sicrhau bod gan bob cyflogai eirida yn ei ffeil.	RH	Erbyn 1 ^{af} Ebrill	✓			Ein polisi blaenorol oedd cadw geirdaon nes bod y cyfnod prawf wedi dod i ben ac yna eu dinistrio, am nad oedd eu hangen arnom mwyach ac ystyriwyd hyn yn arfer gorau yn unol â pholisi Diogelu Data. Fodd bynnag, rydym bellach			✓

a. Nid oedd gan bob cyflogai eirida yn ei ffeil.							yn cadw geiridaon ar gyfer pob aelod o staff am byth, fel y gellir gweld unrhyw eiridaon nad ydynt yn y ffeiliau drwy'r swyddog Adnoddau Dynol.			
b. Nid oedd digon o wybodaeth i nodi unrhyw gamau gweithredu dilynol a gymerwyd ar ôl cael gwiriad cadarnhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).	Datblygu ffurflen adborth i'w chwblhau gan y swyddog penderfynu (CAIS CEO) a'i chadw yn ffeil y personél.	RH	Erbyn 1 ^{af} Ebrill	✓			Hysbyswyd y tîm Adnoddau Dynol am y camau gweithredu gofynnol		✓	
c. Nid oedd ffeiliau staff wedi'u trefnu'n glir. Byddai mynegai ar flaen y ffeil yn helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth berthnasol.	Mynegai i'w gynnwys ar flaen ffeiliau staff yn cyfeirio at yr wybodaeth berthnasol.	RH	Erbyn 1 ^{af} Ebrill	✓			Hysbyswyd y tîm Adnoddau Dynol am y camau gweithredu gofynnol		✓	✓

ch. Nid oedd digon o nodiadau yn ymwneud â'r cyfweiliadau yn y ffeiliau.	Y tîm Adnoddau Dynol i sicrhau y caiff nodiadau cyfweiliadau eu dychwelyd gan y prif gyfwelydd dynodedig fel rhan o'r broses cyfweld	RH	15/01/14	✓			Cedwir nodiadau cyfweiliadau ar wahân, a gellir mynd at y rhain drwy'r adran Adnoddau Dynol os bydd angen.		✓	
d. Nid oedd rhai o'r ffeiliau staff yn cynnwys disgrifiad swydd a/neu archwiliad meddygol.	Sicrhau y caiff disgrifiadau swydd ac archwiliadau meddygol eu cadw yn y ffeil	RH	15/01/14	✓			Mae'n debygol nad oes gennym archwiliadau meddygol ar gyfer staff sydd wedi bod yn eu swyddi ers nifer o flynyddoedd. Mae'r holl archwiliadau meddygol a gynhaliwyd gennym eisoes yn y ffeiliau personol Hysbyswyd y tîm Adnoddau Dynol am y camau gweithredu gofynnol		✓	
<u>Rheoliad 9 (o), 13 (1) a 19 (1) (a) a (b)</u>										

5. Rhaid cyflwyno system llywodraethu ac archwiliad clinigol ym mhob maes, gan gynnwys cynlluniau gofal	Gweithredu prosesau archwilio a fframwaith Llywodraethu Clinigol Hafan Wen.	AJ/EJ	15/01/14	✓			Mae prosesau archwilio llywodraethu clinigol bellach wedi'u rhoi ar waith.			✓
<u>Rheoliad 15 (2)</u> <u>a 26 (2) (a)</u> 6. Rhaid cynnal arolygiad o'r ystafell feddygol/ystafell y meddygon. Mae'n rhaid archwilio'r ystafelloedd meddygol yn rheolaidd i sicrhau nad ydynt yn cynnwys unrhyw hen nwyddau neu gynhyrchion, a'u bod yn cael eu cadw a'u glanhau yn briodol. Yn ystod ein hymweliad roedd rhai cynhyrchion meddygol yn yr ystafell â hen ddyddiad arnynt ac roedd angen glanhau'r ystafell feddygol ar y llawr cyntaf yn drylwyr.	Bydd yr ystafell feddygol/ ystafell y meddygon yn cael eu cynnwys yn yr archwiliad clinig misol.	AJ/ Pob aelod o staff	15/01/14	✓			Proses archwilio wedi'i gweithredu			✓